

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Fedi 2022

- 1 Presennol: John Jones (Cadeirydd) - Garndolbenmaen, Richard Parry - Bryncir, Gwilym Evans, Richard Williams - Prenteg, Clifford Williams, Mike Jones - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams - Golan, Gwenno Emlyn Hughes, Iddon Edwards - Penmorfa, Sarah Jones, Huw Pritchard - Pentrefelin.

Croesawyd Sarah Jones i'w chyfarfod cyntaf ac fe arwyddodd ddatganiad derbyn swydd.

- 2 Ymddiheuriadau: Edward Evans - Bryncir, Manon Jones Evans - Pentrefelin, Dafydd Thomas - Penmorfa, Cyngorydd June Jones.

- 3 Ddim yn bresennol - neb.

- 4 Datgan Buddiant: Eitem rhif 9 (Adroddiad Pentrefi) - Megan Lloyd Williams

- 5 Cywirdeb cyn cofnodion: Richard Williams yn datgan cywirdeb a Gwilym Evans yn eilio.

- 6 Materion yn codi o'r cyn cofnodion

Etholiad 2022: Derbyniwyd llythyr gan Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd/Swyddog Canlyniadau yn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan y Cyngor Cymuned. Byddent yn defnyddio'r adborth i wella'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Clerc i gysylltu yn ôl hefo'r Cyngor i gael cadarnhad o'r newidiadau/gwelliannau i'r gwasanaeth.

Diolchwyd i'r Clerc yn swyddogol am ei holl gwaith caled yn ystod y cyfnod etholiad ac am gysylltu gyda Dafydd Gibbard gyda chwynion y Cyngor Cymuned.

Llwybr Ty'n Ffridd: Llwybr wedi ei dorri. Wedi derbyn ateb gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy fod perchennog y tir wedi cytuno i'r Cyngor newid y giât. Giât ar archeb. Gobaith yw y bydd yn cael ei osod yn ystod mis Medi / Hydref.

Prenteg: Gwilym Evans yn cadarnhau fod canghennau'r coed yn y cae chwarae wedi eu torri a hynny yn sydyn. Gwilym i gysylltu yn uniongyrchol hefo Iwan ap Trefor, Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau o'r Adran Amgylchedd parthed adolygu'r cyfyngiad cyflymder ac ymestyn y llwybr troed o Brenteg tuag at Aberdunant.

John Ystumllyn: Cyswllt wedi'i wneud hefo cwmni Harkness Roses, bridwr y rhosyn arbennig. Dywedwyd bod y cynllun presennol wedi dod i ben ond fod cynllun arall ar y gweill, sef cynllun rhosod ar gyfer gerddi cymunedol.

Megan Lloyd Williams yn cynnig bod y Cyngor yn prynu tri rhosyn er cof am John Ystumllyn allan o Gronfa'r Cadeirydd a Richard Parry yn eilio.

Clerc wedi cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd i gael caniatâd i'w plannu ger y fainc ym Mhentrefelin, ond heb dderbyn ateb. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny.

Adroddwyd bod angen tacluso'r cerrig beddi yn yr hen fynwent ym Mhentrefelin.

Dafarn Faig: Yn y cyfarfod diwethaf trafodwyd llythyr gan un o'r trigolion lleol ynghylch â thrafferthion o gael mynediad i'r A487 o'r gyffordd. Cyfeiriwyd hwn at Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Derbyniwyd ateb gan Tim Barnes, Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau, Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhybuddion am fodolaeth y gyffordd wedi eu gwella yn ddiweddar gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd a bod y cyfyngiad cyflymder yn cael ei adolygu ar sail sawl ffactor gan gynnwys y nifer o ddamweiniau. Penderfynwyd gofyn am gyfarfod safle gydag aelod o staff yr Asiantaeth Cefnffyrdd.

Yn yr un llythyr, cyfeiriwyd at y dŵr oedd yn cronni ger y bont ar y lôn gefn i'r chwith o Dafarn Faig. Cyfeiriwyd hyn at yr Adran Briffyrdd. Derbyniwyd ateb ganddynt yn nodi fod y safle wedi ei archwilio a bydd gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar y safle i weld beth yw'r sefyllfa gyda'r gwli presennol. Wedi i'r gwaith ymchwil gael ei gyflawni, bydd y gwaith draenio sydd angen ei wneud yn cael ei raglennu pan fydd adnoddau yn caniatáu.

Clerc i roi diweddariad i'r person a gysylltodd gyda'r Cyngor Cymuned.

7 Mynwentydd

Prenteg: Cwyn wedi'i dderbyn ynglŷn â gordyfiant ar ffordd y fynwent. Trefnwyd i'r contractwr sy'n torri gwair y fynwent fynd yno i'w dorri. Trafodwyd yr angen i gynnwys ffordd y fynwent yng nghytundeb y contractwr ar gyfer blwyddyn nesaf.

Mynwent Bethel: Derbyniwyd un pris am glirio llwybrau'r fynwent. John Jones yn cynnig bod y Cyngor Cymuned yn cysylltu â chontractwr arall am amcan bris. Megan Lloyd Williams yn eilio. Clerc i gysylltu.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr 5 Cambrian Terrace heibio Bryn Moel, Garndolbenmaen : Penderfynwyd gofyn i'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ymweld â'r llwybr gyda Chynghorwyr Garndolbenmaen. Clerc i drefnu.

Cwmystradllyn: Adroddwyd gan Megan Lloyd Williams fod dipyn o bobl yn cerdded ar hyd yr hen dramffordd a'u bod yn cyrraedd pwynt o dan Rhiniog ac yn methu mynd ymhellach oherwydd ei fod wedi cau fyny. Mynegwyd ei fod yn llwybr pwysig i'w gadw gan ei fod yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Clerc i wneud ymholiadau i weld os yw'n bosib cael ei chlirio neu os oes arian grant a'r gael i'w chlirio a'i hail-agor gyda'r posibilrwydd o'r Cyngor Cymuned yn ei mabwysiadu.

Mynydd Cennin - Adroddwyd bod ambell i gamfa o Feudy Drylliau tuag at Fwlch Gwyn a Thyddyn Famaeth mewn cyflwr gwael. Clerc i gysylltu hefo'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

Apêl Eisteddfod Dolbenmaen: Llongyfarchwyd Gwenno Emlyn Huws am drefnu teithiau cerdded llwyddiannus i godi arian tuag at yr Apêl. Diolch hefyd i Richard Parry - Bryncir ac i Clifford Williams - Garndolbenmaen am arwain dwy daith gerdded.

9 Adroddiad Pentrefi

Cwmystradllyn: Adroddwyd pryder am gyflwr yr hen waith dŵr ac am y tanciau CO2. Llwybr tuag at y llyn angen ei dorri a'i dacluso. Clerc i gysylltu gyda Dŵr Cymru i drefnu ymweliad safle i drafod yr uchod gydag un o'i swyddogion.

Blwch Ffôn Cwmystradllyn a Chwm Pennant - adroddwyd fod y Cyngor Cymuned wedi datgan eu bod yn dymuno cadw'r blychau ffôn yma a'u defnyddio at bwrpas gwahanol er lles y gymuned. Clerc i gysylltu gyda Delyth Lowe, Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd i weld os oes diweddariad.

Penmorfa: Nodwyd fod yr ardd gymunedol yn llwyddiannus dros ben. Datganiad i'w baratoi i'r wasg gan Iddon Edwards.

Pentrefelin: Lôn Tabor - adroddwyd bod dwy garreg fawr wedi disgyn i'r lôn wrth ymyl Tyddyn Sgubor a Lôn Fynwent yn dilyn gwaith torri cloddiau. Cerrig rhy fawr a thrwm i gael eu codi gan berson. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

Ymholiad gan breswilydd parthed creu llyn ar ei thir ac os oes angen caniatâd cynllunio. Cyngorwyd bod gwasanaeth cynghori ar gael gan yr Adran Gynllunio ac i'r preswilydd gysylltu â hwy drwy alw Galw Gwynedd.

Dolbenmaen: Cyfeiriwyd at y ffaith fod wal Mynwent Eglwys Dolbenmaen wedi ei drwsio. Canmolwyd safon gwaith y saer maen.

10 Aelodaeth Is-bwyllgorau:

Penderfynwyd ei adolygu pan fydd Cyngor llawn. Mae yna ddwy sedd wag ar y Cyngor ar hyn o bryd.

11 Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu

Clerc i gwblhau Rhan 1.

Angen sefydlu grŵp i gydweithio ar gwblhau Rhan 2.

Adroddwyd bod elfennau statudol i'w cwblhau.

Atgoffwyd y Cyngorwyr o rhai o ofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 sef

Cynllun Hyfforddi - Cyngorwyr a'r Clerc i'w gwblhau erbyn y 4ydd o Dachwedd, 2022.

Bod angen i grynodedb o'r cyfarfod misol gael ei gyhoeddi o fewn 7 diwrnod o gynnal y cyfarfod. Clerc i yrru templed at y Cyngorwyr.

Bod angen i'r cyfarfodydd gael eu cynnal mewn lleoliad sydd yn hyrwyddo hyblygrwydd ac yn rhoi'r gallu i bobl ymuno o aml leoliad (dros Teams neu Zoom)

12 Swyddogaeth y ddau Clerc

Liz ac Eleri'r Clerc newydd i gydweithio yn ystod Medi a Hydref a rhannu'r gwaith.

Megan Lloyd Williams yn cynnig fod y Cyngor yn talu'r ddau glerc am fis Medi a Hydref, Huw Pritchard yn eilio.

Bancio Ar-lein: Clerc newydd i edrych mewn i'r posibiladau o wneud bancio'r Cyngor Cymuned ar-lein. Clerc i'w gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.

13 Gohebiaeth:

Llythyrau gan Gyngor Gwynedd - Rhybudd cau ffordd dosbarth III Golan 18/7/22. Rhannwyd 13/7/22.

Cynnydd Tîm Tacluso Ardal Ni: Tîm yw hwn sydd wedi ei sefydlu gan Gyngor Gwynedd yn dilyn ymgysylltu cyhoeddus "Ardal Ni 2035". Mae'r Cyngor wedi buddsoddi 1.5 miliwn i gyflwyno'r Timau Tacluso. Byddent yn gweithredu ar yr hyn mae pobl Gwynedd eisiau ei weld yn digwydd yn lleol, megis glanhau meinciau, codi sbwriel, chwynnu a glanhau arwyddion. Gall Gyngorwyr Cymuned/ Trigolion lleol adrodd am unrhyw beth ar-lein drwy'r system FFOS: <<http://www.gwynedd.llyw.cymru/timtacluso>> neu drwy gysylltu â'r tîm drwy Alw Gwynedd ar 01766 771 000. Enw'r Swyddog Prosiect Tîm Tacluso 'Ardal Ni' yw David Charles Williams.

Gohebiaeth ychwanegol

- a. Parc Cenedlaethol Eryri - Cyfarfod Blynyddol Cyngorau Cymuned a Thref gyda'r Awdurdod 25/10/22 neu 27/10/22 (Zoom)
- b. Parc Cenedlaethol Eryri - Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer safle Treftadaeth y Byd Tiroedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.
- c. Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad Treth Cyngor Tecach. Dyddiad cau 4/10/22.
- ch. Llywodraeth Cymru - Pecyn Rheoli Glaswelltiroedd.

- d. Llywodraeth Cymru - Deddf Cynllunio Gwlad a Thref Adran 247. Gorchymyn cau priffyrdd Ty'n Dwr Garndolbenmaen.
- dd. Ystadau Cymru - Angorfa ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Cais am Ddarparu Lleoliadau/Safleoedd.
- e. Comisiwn Ffiniau i Gymru Cynrychiolaethau'r Ail Gyfnod Ymgynghori.
- f. Mantell Gwynedd Bwletin Rhif 26.
- ff. Rheoli perygl llifogydd tymor hir Pwllheli. Rhannwyd 14/7/22
- g. Cyngor Tref Criccieth - Holiadur Hyrwyddo Ffyniant Criccieth. Rhannwyd 24/8/22.

14 Cynllunio: Rhestrau 1/7, 8/7, 15/7, 22/7, 29/7,5/8, 12/8, 19/8,22/8.

Cais NP2/16/2F: Codi adeilad amaethyddol. Bryn Awelon, Garndolbenmaen. Dyddiad Cau 03/08/22. Dim gwrthwynebiad.

15 Materion Ariannol - Llyfrau am y chwarter cyntaf (Ebrill, Mai, Mehefin 2022) wedi'u gwirio gan Gwenno Emlyn Hughes a Clifford Williams. Arwyddwyd i ddatgan eu bod yn gywir.

Ceisiadau am arian: Dim

Monitro'r Gyllideb - dim gorwariant.

Biliau i'w talu

Awst:

Cyflog Clerc	= £258.02
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 64.40
HSBC (Costau 6/6-5/7)	= £ 10.00

Medi

Cyflog Clerc	= £258.02
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 64.40
Archwilio Cymru	= £275.00

Ychwanegwyd:

Hughes-Jones, Dyson & Co = £360.00

CFfI Dyffryn Madog = £200.00

Derbyniadau

Pritchard & Griffiths = £475.00

Balans Cyfrifon Banc

Cyfrif Cadw: £16,848.11

Cyfredol: £16,572.53

16 Dewis Gohebiaeth i'r Wasg

Teithiau cerdded Apêl Eisteddfod Dolbenmaen

Cynghorydd Cyngor Cymuned a Chlerc newydd.

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Etholiad

Cais Cynllunio

Gwefan - Cofnodion Gorffennaf 2022.